



PRIFYSGOL  
**BANGOR**  
UNIVERSITY

## CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL

2016-2020

Adol.	Dyddiad	Pwrpas Cyhoeddi/Disgrifiad o'r Newid		Dyddiad Adolygu
1				
Swyddog Polisi	Uwch Swyddog sy'n Gyfrifol	Cymeradwywyd gan		Dyddiad
Cyfarwyddwr AD	Swyddog Cydraddoldeb	Grŵp Tasg Cydraddoldeb ac Amrywiaeth		Chwefror 2016

## **BETH YW CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL?**

Datganiad o ymrwymiad parhaus Prifysgol Bangor i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yw Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-2020. Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn amlinellu amcanion cydraddoldeb y Brifysgol. Mae'r Cynllun Gweithredu cysylltiedig yn amlinellu pa gamau gweithredu y mae'r Brifysgol wedi eu dynodi er mwyn cyflawni ei hamcanion cydraddoldeb.

Bydd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r Cynllun Gweithredu yn helpu'r Brifysgol i ddiwallu ei rhwymedigaethau o ran hyrwyddo cydraddoldeb, atal gwahaniaethu a hyrwyddo gwell dealltwriaeth rhwng gwahanol grwpiau o bobl. Mae'r Cynllun Gweithredu yn amlygu'r tasgau, yr amcanion a'r cyfrifoldebau yn ystod cyfnod yr ail Gynllun Cydraddoldeb Strategol.

Datblygwyd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r Cynllun Gweithredu nid yn unig o fewn cyd-destun dyletswyddau cyfreithiol y Brifysgol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a'r Dyletswyddau sy'n Benodol i Gymru, ond hefyd mewn perthynas â Strategaeth "Adeiladu ar Lwyddiant" 2015-2020 y Brifysgol.

## 1. **YNGLŶN Â PHRIFYSGOL BANGOR**

Sefydlwyd y Brifysgol o ganlyniad uniongyrchol i ymgyrch yn niwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg i gael darpariaeth addysg uwch yng Nghymru. Casglwyd arian trwy danysgrifiad cyhoeddus er mwyn sefydlu coleg ar lefel prifysgol ym Mangor. Nodwedd bwysig o sefydlu'r brifysgol oedd y cyfraniadau gwirfoddol a wnaed gan bobl leol, yn cynnwys ffermwyr a chwarelwyr, o'u cyflogau prin dros nifer o flynyddoedd.

Sefydlwyd y Brifysgol fel Coleg Prifysgol Gogledd Cymru. Agorodd ei drysau ar 18 Hydref 1884 mewn hen westy ar gyrion Bangor, gyda 58 o fyfyrwyr a 10 aelod staff. Darparwyd y graddau gan Brifysgol Llundain tan 1893 pan ddaeth Prifysgol Cymru Bangor yn un o dri choleg gwreiddiol Prifysgol Cymru.

Heddiw, mae gennym dros 12,000 o fyfyrwyr a 2,000 o aelodau staff. Mae'r Brifysgol bellach yn dyfarnu ei graddau ei hun. Mae Prifysgol Bangor wedi ymrwymo i ddarparu addysg o'r ansawdd uchaf, gwneud ymchwil o'r ansawdd uchaf, gofalu'n dda am ei myfyrwyr, a chwarae rhan lawn yng nghymuned ehangach Cymru.

Ceir mynediad yn electronig at ragor o wybodaeth yma.

## 2. **Y CEFNDIR CYFREITHIOL**

### Y Ddeddf Cydraddoldeb a'r Nodweddion Gwarchoddedig

Fe wnaeth Deddf Cydraddoldeb 2010 (y Ddeddf) gyfuno sawl darn gwahanol o gyfreithiau gwrth-wahaniaethu er mwyn creu un fframwaith cyfreithiol. Mae'r Ddeddf yn symleiddio, yn cryfhau ac yn cael gwared ag anghysonderau blaenorol ac yn cynnig amddiffyniad i bobl â "nodweddion gwarchoddedig". Sef: oed, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaethau sifil (ar gyfer materion cyflogaeth), beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chred (a dim cred), rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

### Dyletswyddau Cydraddoldeb

Mae'r ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau'r sector cyhoeddus, sy'n cynnwys Sefydliadau Addysg Uwch, i ddiwallu'r "Dyletswyddau Cyffredinol" ac ategir y rhain gan "Ddyletswyddau Penodol".

Nod y Dyletswyddau Cyffredinol, fel y cânt eu nodi yn y ddeddfwriaeth, yw:

- Dileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erlid ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.
- Hybu cyfle cyfartal rhwng pobl o wahanol grwpiau.
- Meithrin perthynas dda rhwng pobl o wahanol grwpiau - mae a wnelo hyn â mynd i'r afael â rhagfarn a hyrwyddo dealltwriaeth.

Mae'r Dyletswyddau Penodol yn rhan o ddyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus ac maent yn amrywio mymryn yng ngwahanol ranbarthau'r Deyrnas Unedig. Mae dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus sy'n benodol i Gymru yn canolbwyntio ar gyflawni canlyniadau cadarnhaol trwy gyfrwng amcanion cydraddoldeb sy'n seiliedig ar dystiolaeth a thrwy ymgysylltu â phobl y mae'r amcanion yn effeithio arnynt. Er mwyn diwallu'r dyletswyddau penodol bydd angen i sefydliadau'r sector cyhoeddus ddynodi amcanion cydraddoldeb, sy'n seiliedig ar ymgysylltu ac ar dystiolaeth, a chyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-2020 y Brifysgol yn adeiladu ar lwyddiannau blaenorol ac yn dynodi pa gamau pellach y bydd y Brifysgol yn eu cymryd i hybu cydraddoldeb ymhellach.

### 3. **YMRWYMIAD PRIFYSGOL BANGOR**

#### Cynllun Strategol 2015-2020 Y Brifysgol – "Adeiladu ar Lwyddiant"

Mae Strategaeth y Brifysgol yn amlinellu ei hymrwymiad i adeiladu ar lwyddiannau, gan weithio gyda chymunedau amrywiol a gwahanol i gyflawni ein gorau o ran addysgu, ysgolheictod ac ymchwil, gan ddal ein gafael ar y pwyslais cryf a roddir ar gyfraniad gwerthfawr ac arbennig y myfyrwyr a pharhau'n driw i'n cyd-destun dwyieithog a diwylliannol unigryw.

Ein Cenhadaeth yw:

***"Sefydliad cryf, hyderus a gydnabyddir yn rhanbarthol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol fel canolfan ragoriaeth ar sail ei bortffolio amrywiol o addysgu ac ymchwil, ac am y profiad unigryw, amlddiwylliannol a chynhwysol y mae'n ei roi i'w staff a'i fyfyrwyr"***.

Mae'r Brifysgol wedi dynodi naw o werthoedd sy'n sail i'r Strategaeth. Sef:

- Diogel, croesawus a chynhwysol
- Balchder a hunanhyder
- Arbenigrwydd yr hyn a gynigiwn i'n myfyrwyr
- Derbyn a gwerthfawrogi amrywiaeth ein staff a'n myfyrwyr
- Rhychwant ein gweithgareddau addysgu ac ymchwil yn rhoi'r llwyfan gorau i adeiladu arno â hyder
- Rhan o gymuned ranbarthol ehangach
- Cyfrannu'n gadarnhaol at economi, cymdeithas, amgylchedd, iaith a diwylliant y rhanbarth hwnnw.
- Pwyslais sylweddol a roddir i fyfyrwyr fel partneriaid
- Cyfrannu at gynaliadwyedd y Brifysgol, y rhanbarth a'r byd.

Mae 4 maes blaenoriaeth strategol a 5 galluogwr strategol.

Blaenoriaethau Strategol	Galluogwyr Strategol
1. Addysg a Phrofiad Rhagorol i Fyfyrwyr	1. Pobl
2. Cryfhau Llwyddiant Ymchwil	2. Adnoddau
3. Prifysgol Ryngwladol ar gyfer y Rhanbarth	3. Llywodraethu a Rheolaeth
4. Yr Iaith a'r Diwylliant Cymraeg ac Ymwneud â'r Cyhoedd	4. Brand a Marchnata
	5. Cynladwyedd

Mae ymrwymiad Prifysgol Bangor i gydraddoldeb wedi gwreiddio hefyd yn rhai o ddogfennau strategol allweddol eraill y Brifysgol;

#### Yr Ymrwymiad i Gydraddoldeb:

Nod Prifysgol Bangor yw darparu amgylchedd sy'n parchu ac yn gwerthfawrogi cyfraniad cadarnhaol ei holl aelodau, fel bod modd iddynt wireddu eu potensial llawn a chael budd a mwynhad o'r rhan y maent yn ei chwarae ym mywyd y Brifysgol. I gyflawni'r nod hwn, mae'r Brifysgol yn cydnabod yr hawliau sylfaenol canlynol i bob un o'i haelodau a'i darpar aelodau:

- Cael eu trin ag urddas a pharch
- Cael eu trin yn deg
- Cael eu hannog i wireddu eu potensial llawn

Mae'r datganiad a'r ymrwymiad hwn hefyd yn ategu'r Polisi Urddas yn y Gwaith ac wrth Astudio.

#### Yr Ymrwymiad i'r Gymraeg

Mae'r Brifysgol yn cymryd rhan flaenllaw yn niwylliant ac economi Cymru a meithrin yr iaith Gymraeg ag er nad yw'r Gymraeg yn cael sylw penodol gan y Ddeddf Cydraddoldeb, mae ymrwymiad y Brifysgol at yr iaith yn cael ei ddangos yn y *Cynllun Iaith Gymraeg* sydd yn ddogfen statudol sydd wedi cael ei ddatblygu yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg (1993) a Mesur yr Iaith Gymraeg 2011.

#### 4. CYFRIFOLDEBAU CYDRADDOLDEB Y BRIFYSGOL

O dan Siarter ac Ystatudau'r Brifysgol, y Cyngor yw corff llywodraethu'r Brifysgol a gan y Cyngor y mae'r cyfrifoldeb terfynol am faterion yn ymwneud â chydymffurfio â'r gyfraith. Y Pwyllgor Gweithredol sydd â chyfrifoldeb dros reolaeth a gweinyddiad cyffredinol y Brifysgol o ddydd i ddydd. Er mwyn ymgymryd â'i ddyletswyddau, cynghorir y Pwyllgor Gweithredol gan Grwpiau Tasg sy'n adrodd ar feysydd allweddol o weithgarwch penodol. Dyma'r Grwpiau Tasg allweddol sydd wedi eu dynodi i fod â chyfrifoldeb penodol dros amrywiol feysydd cydraddoldeb:

- Grŵp Tasg Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Grŵp Tasg Gwasanaethau Myfyrwyr
- Grŵp Tasg Undeb y Myfyrwyr
- Grŵp Tasg Adnoddau Dynol
- Grŵp Tasg Addysgu a Dysgu
- Grŵp Tasg Ystadau a Chyfleusterau
- Grŵp Tasg Cydymffurfio â'r Gyfraith
- Grŵp Tasg Sicrhau Ansawdd

O fewn y Grwpiau Tasg hyn, mae nifer o weithgorau yn adrodd ar faterion penodol sy'n ymwneud ag amrywiol feysydd cydraddoldeb. Er enghraifft:

- **Gweithgor Anabledd** Monitro polisi a gweithdrefnau mewn perthynas â myfyrwyr anabl ac yn adrodd i'r Grŵp Tasg Gwasanaethau Myfyrwyr.
- **Grŵp Cysylltiadau Anabledd** Cynrychiolaeth o bob ysgol a phob gwasanaeth canolog ac mae'n adrodd i'r Gweithgor Anabledd.
- **Gweithgor Mynediad Ffisegol** Rheoli rhaglenni i wella mynediad ffisegol. Mae'n adrodd i'r Grŵp Tasg Ystadau a Chyfleusterau, ac yn rhoi adborth i'r Gweithgor Anableddau.
- **Gweithgor Athena Swan** Mae'n adrodd i'r Grŵp Tasg Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ynglŷn â chamau gweithredu sy'n ymwneud yn benodol â menywod ym meysydd Gwyddoniaeth, Peirianeg a Thechnoleg.

Mae gan swyddogion amrywiol o fewn y Brifysgol ddyletswyddau dirprwyedig sy'n cynnwys meysydd cydraddoldeb:

- Mae Pennaeth y Gwasanaeth Anabledd a Phennaeth y Gwasanaeth Cwnsela yn adrodd i Gyfarwyddwr Profiad Myfyrwyr.
- Mae'r Pennaeth Cefnogi Myfyrwyr Rhyngwladol yn adrodd i'r Pennaeth Profiad Myfyrwyr Rhyngwladol.
- Y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol sy'n gyfrifol am bolisiâu a gweithdrefnau yn ymwneud â staff.
- Mae gan y Dirprwy Gyfarwyddwr (Datblygu Staff) gyfrifoldeb dros yr agenda gydraddoldeb ac mae'n arwain ar hyfforddiant cydraddoldeb a rhaglenni datblygu ar gyfer staff.
- Mae'r Swyddog Cyfle Cyfartal wedi ei leoli yn yr adran Adnoddau Dynol ac mae'n darparu gwybodaeth a chefnogaeth sy'n berthnasol i bob maes cydraddoldeb o fewn y ddeddfwriaeth.
- Mae'r Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch yn darparu cefnogaeth a chynghor lles i staff.
- Pennaeth Cydymffurfio

## 5. **DATBLYGU AMCANION CYDRADDOLDEB NEWYDD** *(Rheoliad 14 a rheoliad 7)*

Y cam cyntaf wrth ddatblygu amcanion cydraddoldeb newydd oedd adlewyrchu'r cynnydd hyd yma yn sgil Cynllun Cydraddoldeb Strategol cyntaf y Brifysgol a'r Cynllun Gweithredu cysylltiedig. Yn dilyn hyn, aethpwyd ati i gynnal rhaglen o gyfathrebu ac o godi ymwybyddiaeth ynglŷn â'r gwaith o adolygu'r amcanion cydraddoldeb. Yna cynhaliwyd gweithgareddau i gasglu syniadau ar gyfer blaenoriaethau cydraddoldeb y Brifysgol i'r dyfodol.

Ar yr un pryd cyhoeddwyd Cynllun Strategol trosfwaol y Brifysgol ar gyfer 2015-2020, "Adeiladu ar Lwyddiant". Mae'r amcanion cydraddoldeb newydd yn adlewyrchu cenhadaeth, gwerthoedd ac amcanion strategol y Brifysgol.

Roedd y rhaglen o godi ymwybyddiaeth yn cynnwys: llythyr o ymrwymiad oddi wrth yr Is-Ganghellor i'r holl staff gan eu hannog i gymryd rhan yn y broses; cyflwyniadau i'r Grwpiau Tasg a'r Gweithgorau Allweddol; grwpiau ffocws ar gyfer staff i geisio syniadau a chyfraniadau; holiadur electronig (yr oedd modd ei lenwi ar bapur hefyd) i asesu ymwybyddiaeth a theimladau staff a chyfeiriad e-bost ar gyfer y prosiect er mwyn galluogi'r staff i ymateb yn gyfrinachol.

Cafodd yr amcanion cydraddoldeb newydd eu datblygu yn sgil y gwaith hwn. Maent yn adlewyrchu:

- Y dylid bwrw ymlaen â gwaith sydd wedi ei ddynodi o'r cynllun gweithredu amcanion cydraddoldeb cyntaf oherwydd bod y gwaith hwnnw'n parhau'n rhan hanfodol o ymrwymiad y Brifysgol i gydraddoldeb. Er enghraifft, mewn perthynas ag agenda Athena SWAN, monitro cyflogau cyfartal, asesu effaith polisiau ac arferion a'r rhaglen hyfforddiant cydraddoldeb.
- Prosiectau ac amcanion allweddol sy'n cael eu symbylu gan yr agenda gydraddoldeb ac sydd wedi gwreiddio naill ai yn strategaeth y Brifysgol neu yn un o strategaethau eraill y Brifysgol. Er enghraifft, y Strategaeth Profiad Myfyrwyr.
- Prosiectau newydd sydd wedi cael eu dynodi drwy gynnwys staff. Er enghraifft, mewn perthynas â chynghor a chefnogaeth ar gyfer staff anabl.

Mae tair prif amcan cydraddoldeb sy'n adlewyrchu galluogwyr neu amcanion strategol trosfwaol y Brifysgol. Mae pob amcan yn gysylltiedig ag o leiaf un o nodweddion gwarchoddedig y Ddeddf Cydraddoldeb. Mae'r Cynllun Gweithredu Amcanion Cydraddoldeb yn rhestru'r camau y mae'r Brifysgol yn bwriadu eu cymryd, sut mae mesur llwyddiant a chan bwy mae'r cyfrifoldeb am fwrw ymlaen â'r gweithredu. Bydd cynnydd yn cael ei fonitro gan y Grŵp Tasg Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a fydd hefyd yn adolygu'r adroddiad blynyddol ar gynnydd a llwyddiannau. Bydd Cadeirydd y Grŵp Tasg yn adrodd i Bwyllgor Gweithredol y Brifysgol a bydd Cynghor y Brifysgol yn cael adroddiad blynyddol o'r cynnydd.

Mae'r Brifysgol yn ymrwmo i gyhoeddi, yn flynyddol (erbyn 31 Mawrth), adolygiad o'r cynnydd tuag at ddiwallu'r amcanion cydraddoldeb a amlinellwyd yn y Cynllun Gweithredu Amcanion Cydraddoldeb. Bydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Grŵp Tasg Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a bydd ar gael ar dudalen we Cydraddoldeb ac Amrywiaeth. Yn ychwanegol, ac yn flynyddol (erbyn 31 Mawrth), bydd y Brifysgol yn cyhoeddi gwybodaeth am gyflogaeth a gwybodaeth yn ymwneud â phroffil y corff myfyrwyr.



**Nodweddion Gwarchoddedig:**

Mae pob un o amcanion y cynllun gweithredu yn gysylltiedig ag o leiaf un o nodweddion gwarchoddedig y Ddeddf Cydraddoldeb, sef oedran, anabledd, hunaniaeth rhywedd, beichiogrwydd neu famolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

AMCAN A PHWYNT GWEITHREDU	Oedran	Anabledd	Hunaniaeth Rhywedd	Priodas / partneriaeth sifil	Beichiogrwydd /mamolaeth	Hil	Crefydd a Chred	Rhyw	Cyfeiriadedd Rhywiol
<b>AMCAN 1</b> <b>Prif-ffrydio Cydraddoldeb ac Amrywiaeth drwy Alluogwyr Strategol y Brifysgol</b>									
Aseidiadau Effaith Cydraddoldeb	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Lledaenu'r ymrwymiad i gydraddoldeb	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Hyfforddi Staff a Myfyrwyr	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Monitro	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Cyhoeddi	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Cyflog cyfartal a materion cytundebol	✓	✓				✓		✓	
Staff Anabl	✓	✓							
Caffael a chynaliadwyedd	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Mynediad Ffisegol	✓	✓							
<b>AMCAN 2</b> <b>Addysg a Phrofiad Rhagorol i Fyfrwyr</b>									
Strategaeth Profiad Myfyrwyr	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Strategaeth Iechyd Meddwl Myfyrwyr	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Y Swyddfa Ryngwladol						✓	✓		
Undeb y Myfyrwyr	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
<b>AMCAN 3</b> <b>Ymchwil</b>									
Athena SWAN	✓		✓	✓	✓			✓	✓
Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓

Gellir cael mynediad at Gynllun Gweithredu'r Amcanion yma neu drwy gysylltu â ...

## 6. **CASGLU A MONITRO DATA**

*(Rheoliad 7 ynglŷn â gwybodaeth cydraddoldeb a rheoliad 11 ynglŷn â gwahaniaeth cyflog rhwng y rhywiau)*

Cydnabyddir bod casglu data'n ddull pwysig o fonitro cynnydd ac o osod cyfeiriad o fewn yr agenda cydraddoldeb. Y mae, felly, wedi cael ei ddynodi fel amcan cydraddoldeb a chaiff pwyntiau a chanlyniadau'r cam gweithredu eu rhestru yn y Cynllun Gweithredu.

### Archwilio Cyflogau yn ôl Rhyw

Mae'r Brifysgol wedi ymgymryd â phedwar archwiliad cyflog cyfartal ers gweithredu'r Cytundeb Fframwaith<sup>1</sup> ym mis Mehefin 2008 ac mae'r Brifysgol yn ymrwymedig i barhau i gynnal archwiliadau cyflog yn ôl rhyw yn flynyddol. Cynhelir yr archwiliadau ar y cyd ag Undebau Llafur cydnabyddedig Prifysgol Bangor (UCU, Unite, ac Unsain).

Darganfu'r archwiliad diwethaf nad oes gan Brifysgol Bangor unrhyw fylchau cyflog amlwg rhwng y rhywiau yn y fframwaith cyflog 51 pwynt a weithredwyd fel rhan o'r Cytundeb Fframwaith a bod a wnelo unrhyw amrywio oddi wrth y raddfa â'r ffaith bod swyddogaethau'n unigryw. Mae cyflog cyfartal a materion cytundebol yn amcan cydraddoldeb pwysig.

Mae'r pwyntiau gweithredu'n cynnwys gweithredu bandiau ar gyfer athrawon, adolygu polisïau sy'n ymwneud ag agweddau o dâl ychwanegol ac ystyried canfyddiadau adroddiad WAVE<sup>2</sup> 2014 i ddynodi unrhyw beth sy'n berthnasol i Brifysgol Bangor.

Bydd y Gweithgor Cyflogau Cyfartal yn parhau i fonitro archwiliadau cyflogau cyfartal a bydd y canlyniadau a'r cynnydd yn erbyn y pwyntiau gweithredu yn cael eu hadrodd i'r adran Adnoddau Dynol ac i Grŵp Tasg Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.

### Adrodd am Athena SWAN

Mae Prifysgol Bangor yn falch o fod â Gwobr Efydd ac yn falch o lwyddiant Ysgol Gwyddorau Iechyd a Chwaraeon yn cael eu gwobr Efydd eu hunain. Croesewir ehangu agenda Athena SWAN. Er mwyn adlewyrchu ymrwymiad y Brifysgol i gael rhagor o wobrau Athena SWAN, cafodd swydd newydd ei chreu a fydd yn cefnogi Ysgolion a Cholegau i wneud ceisiadau i Athena SWAN.

Mae hyn yn benodol yn cynnwys cefnogaeth i ddadansoddi data perthnasol am staff a myfyrwyr a monitro cynnydd yn erbyn cynllun gweithredu Athena SWAN.

Dynodwyd Athena SWAN yn amcan cydraddoldeb a bydd Gweithgor Athena SWAN yn parhau i fonitro ceisiadau a chynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu. Bydd y Gweithgor yn adrodd ar gynnydd i'r adran Adnoddau Dynol ac i Grŵp Tasg Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.

---

1 Cytundeb Fframwaith - Un o brif egwyddorion y Cytundeb Fframwaith yw cyflog cyfartal am waith o werth cyfartal

2 WAVE – **W**omen **A**dding **V**alue to the **E**conomy

## Heriau

Cydnabyddir bod heriau ynghlwm â chasglu data. Mae angen bod staff a myfyrwyr yn teimlo'n hyderus wrth gyflwyno data ac yn deall yn llawn pam fod y Brifysgol yn gofyn am ddata ynglŷn â nodweddion gwarchoddedig. Mae hyn yn arbennig o wir wrth i'r Brifysgol ehangu ei gweithgarwch casglu data i gynnwys meysydd crefydd a chred (neu ddim cred), cyfeiriadedd rhywiol ac ailbennu rhywedd lle gall staff a myfyrwyr fod yn amharod i ddatgan hynny. Bydd y Brifysgol yn gweithio i feithrin hyder er mwyn gostwng y niferoedd sy'n dewis peidio â datgan yn y meysydd penodol hyn ac er mwyn gallu defnyddio'r data yn gyfrinachol i roi lywio sut mae gwasanaethau'n cael eu darparu gwasanaethau ac i fonitro problemau.

Mae camau sylweddol wedi cael eu cymryd yn ystod cyfnod y Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r Cynllun Gweithredu diwethaf er mwyn dynodi unrhyw fylchau wrth gasglu data ac mae disgwyl y bydd y gwaith hwnnw'n parhau. Mae hyn yn arbennig o berthnasol o ran data ynglŷn â staff sy'n gadael y Brifysgol a bydd y Gweithgor yn y maes hwn yn parhau i fonitro data i ddynodi unrhyw dueddiadau y mae angen mynd i'r afael â nhw.

## 7. **HYFFORDDIANT**

*(Rheoliad 10)*

Mae'r Brifysgol wedi datblygu, yn enwedig dros gyfnod y Cynllun Cydraddoldeb Strategol cyntaf, raglen gynhwysfawr o hyfforddiant cydraddoldeb. Bwriad y rhaglen yw hyrwyddo dealltwriaeth o'r dyletswyddau cyffredinol a'r dyletswyddau penodol a hyrwyddo amgylchedd cynhwysol lle gall pob aelod o staff a phob myfyriwr ffynnu a chyflawni eu potensial yn llawn. Bydd Hyfforddiant Cydraddoldeb yn parhau i fod yn un o gerrig sylfaen ymrwymiad y Brifysgol i gydraddoldeb ac amrywiaeth ac y mae, felly, wedi cael ei ddynodi yn amcan cydraddoldeb allweddol.

Bydd y pwyntiau gweithredu yn cynnwys: adolygiad cynhwysfawr o raglen hyfforddiant cydraddoldeb ar-lein y Brifysgol; rhaglenni hyfforddiant cydraddoldeb wedi eu teilwra i ddiwallu anghenion penodol grwpiau gwahanol o staff, yn enwedig y rhai hynny sy'n gweithio yn y rheng flaen ac sydd â chyfrifoldebau rheoli llinell: rhaglenni penodol wedi eu cyflwyno gan weithwyr proffesiynol ar draws y Brifysgol, er enghraifft mewn perthynas ag ymgyrchoedd iechyd meddwl a chodi ymwybyddiaeth o faterion yn ymwneud â phobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol; a hyfforddiant penodol fel rhan o'r rhaglen gynefino ar gyfer staff newydd neu mewn perthynas â chynnal asesiadau o effaith ar gydraddoldeb.

Byddwn yn monitro cynnydd ac yn adrodd ar gynnydd yn yr adroddiad cynnydd blynyddol.

## 8. **ASESU'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB**

*(Rheoliad 8)*

Mae Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cael eu cydnabod fel dull pwysig o helpu i ddileu problemau gwahaniaethu posibl wrth ddatblygu polisiau neu wneud penderfyniadau. Maent hefyd yn helpu i ddynodi a oes unrhyw gamau y gellir eu cymryd i hyrwyddo cydraddoldeb. O'r herwydd, mae Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi cael ei ddynodi fel amcan cydraddoldeb. Bydd y Pwyntiau Gweithredu yn cynnwys: adolygu'r dull a ddefnyddir i gynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb; adolygu'r hyfforddiant sydd ar gael i staff sy'n cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac adolygu sut mae Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cael eu cofnodi.

Byddwn yn monitro cynnydd ac yn adrodd ar gynnydd yn yr adroddiad cynnydd blynyddol.

## 9. **DIOLCHIADAU**

Mae'r Brifysgol yn ymrwymedig i adeiladau ar yr wybodaeth a'r profiad a oedd gennym cyn ac ar ôl Deddf Cydraddoldeb 2010.

Diolch i bob un o'r gweithwyr proffesiynol hynny sy'n gweithio ym mhob rhan o'r Brifysgol sy'n cyfrannu at wneud Bangor yn lle hapus a chynhwysol i weithio ac astudio.

Mae rhagor o wybodaeth ynglŷn â chydraddoldeb ac amrywiaeth o fewn y Brifysgol, gan gynnwys polisiau, Prosiectau, cymorth i fyfyrwyr a staff ar gael o ddilyn y dolenni canlynol:

Terfynol Chwefror 2016

Staff: Adnoddau Dynol a Datblygu Staff  
Cydraddoldeb ac Amrywiaeth  
Gwasanaethau Myfyrwyr